Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8379
E-bost: Kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov.uk

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Hydref 2016

Annwyl Mr Ramsay

Diolch am eich llythyr wedi'i ddyddio 23 Medi 2016 yn holi ynghylch y defnydd o adolygwyr lleyg yn ein cynlluniau arolygu. Ar hyn o bryd, mae gennym 12 adolygydd lleyg gwirfoddol, a dau ohonynt wedi bod yn adolygwyr lleyg a oedd yn derbyn tâl ynghynt. Maent yn cynnwys cymysgedd o unigolion ymddeoledig a chyflogedig sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu a'r sector preifat. Mae un o'n hadolygwyr hefyd yn eiriolwr ar gyfer Gofalwyr Cymru.

Maent i gyd wedi derbyn hyfforddiant gan AGIC ac maent wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant iechyd meddwl pwrpasol AGIC er mwyn paratoi ar gyfer y maes gwaith hwn. Maent oll yn derbyn cymorth llawn gan ein rheolwyr arolygu wrth gymryd rhan mewn arolygiadau a darperir adborth iddynt i'w helpu gyda'u dysgu a datblygu. Yn eu tro, maent yn gallu darparu adborth am eu profiad wrth ymgymryd â'r rôl hon.

Mae adolygwyr lleyg gwirfoddol wedi bod yn rhan o'r timau arolygu ers mis Ebrill eleni a hyd yn hyn nid ydym wedi profi problemau o ran cadarnhau adolygydd lleyg gwirfoddol i fod yn rhan ohonynt. Maent yn hynod o awyddus i fod yn rhan o'n gweithgaredd ac mae rhai ohonynt wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o arolygiadau thematig mwy o faint rydym wrthi'n eu cyflawni. Mae fy nhîm yn monitro argaeledd yr adolygwyr lleyg gwirfoddol yn agos a phe baem yn canfod bod nifer annigonol o adolygwyr lleyg gwirfoddol i gyflawni ein rhaglen waith, byddwn yn cychwyn ymgyrch recriwtio i fynd i'r afael â hyn. Rydym yn parhau i weithio'n agos â'r cynghorau iechyd cymuned, gan fod eu haelodau'n cymryd rhan yn ein rhaglen o arolygiadau meddygfeydd teulu i gael gwybod am brofiadau cleifion.



Welsh Government ● Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park ● Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil ● Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Yn olaf, gan fod AGIC wedi dechrau defnyddio adolygwyr lleyg gwirfoddol ym mis Ebrill eleni, rwyf wedi comisiynu adolygiad byr o'r newid hwn a fydd yn digwydd yn gynnar yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a byddaf yn hapus i'ch diweddaru chi unwaith i'r broses hon gael ei chwblhau.

Yr eiddoch yn gywir



**DR KATE CHAMBERLAIN**
Prif Weithredwr